# <u>Cyngor Cymuned Llandderfel.</u>
# <u>Cyfarfod Blynyddol.</u>

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mai 5ed 2026 yn Neuadd Bro Derfel. Yn bresennol oedd Alwyn Jones (cadeirydd), Eilir Rowlands, Bethan Thomas, Gwenda Morris, Rita Jones, Gwynedd Jones, Eifion Davies, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwenda Evans, Dewi Pritchard a Iolo V. Evans.

Croesawyd y cynghorwyr i'r cyfarfod gan y cadeirydd.

<u>i) Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd.</u>
Gan nad oedd Gwenda Evans yn gallu bod yn bresennol cytunodd Alwyn Jones i gadeirio'r cyfarfod.
Cytunwyd i ofyn i Gary Thomas fod yn is-gadeirydd.

<u>ii) Cynrychiolwyr ar bwyllgorau.</u>
Ail-etholwyd y cynrychiolwyr ar y pwyllgorau canlynol:-

Pwyllgor Un Llais Cymru: Dewis cynrychiolydd pan fydd y Cyngor yn derbyn manylion y cyfarfodydd.
Cwmni Pum Plwy Penllyn: Eifion Davies a Rita Jones
Fforwm Adfywio Y Bala a Phenllyn – Bethan Thomas a Rita Jones
Pwyllgor Cantref: Eilir Rowlands.
Cyfarfodydd Lleol Yr Heddlu: Alwyn Jones.

<u>iii) Adroddiad Blynyddol y Cyngor.</u>
Cymeradwywyd yr adroddiad blynyddol roedd y Clerc wedi ei baratoi.

<u>iv) Cyfrifon 2025-26.</u>
Cafwyd adroddiad o'r cyfrifon gan y clerc, a chafwyd hwy yn gywir.

<u>v) Archwiliad Blynyddol y Cyngor.</u>
Eglurodd y Clerc fod trefniadau mewn lle i anfon y dogfennau perthnasol i'r archwilwyr mewnol ac yn ddiweddarach i Archwilio Cymru.

<u>vi) Adolygu Rhestr o ffioedd y mynwentydd</u>.
Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i godi'r ffioedd o fis Mehefin ymlaen.

<u>vii) Cydnabyddiaeth Ariannol i'r Cynghorwyr 2026-27.</u>
Cofnodwyd y llythyrau a dderbyniwyd gan y cynghorwyr yn cadarnhau nad oeddynt am hawlio'r cydnabyddiaethau ariannol gorfodol.

<u>viii) Adolygu Asedau.</u>
Adolygwyd y rhestr a chafwyd yn gywir. Cadarnhaodd y cynghorwyr fod yr asedau wedi cael ei archwilio ac mewn cyflwr da. Cytunwyd fod y gwerthoedd ar y polisi yswiriant yn ddigonol.

<u>ix) Adolygu Polisïau a Rheoliadau'r Cyngor.</u>
Adolygwyd y Rheoliadau Sefydlog, Rheoliadau Mewnol, Rheoliadau Ariannol, Cynllun Hyfforddiant, Polisi Diogelu Data ac Asesiad Risg presennol a chafwyd yn gywir.



Arwyddwyd: ………………………………………….  Dyddiad:……………………..